# Glasbrint ar gyfer atal Trais yn erbyn Menywod a Merched yng Nghymru

Mae trais yn erbyn menywod, yn cynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV), yn broblem iechyd cyhoeddus fawr yng Nghymru ac yn fyd-eang. Mae'n torri hawliau dynol menywod a phlant, mae'n cyfyngu ar eu dewisiadau a'u dylanwad, ynghyd â'u gallu i gyfranogi yn y gymdeithas a dilyn nodau a dyheadau sy'n ystyrlon iddyn nhw. Mae hyn yn niweidio iechyd unigolion, teuluoedd, cymunedau ac economïau.

Mae'n bosibl atal pob math o VAWDASV. Gall y mathau o drais fod yn wahanol, ond mae pob un wedi'i wreiddio mewn perthynas anghyfartal o ran rhywedd mewn cymdeithas, ac yn fynegiant o hynny. Drwy herio'r strwythurau, arferion a normau sy'n cynnal anghydraddoldeb rhywedd, caiff sylfaen VAWDASV ei danseilio. Wrth i oddefgarwch at VAWDASV leihau, ac i allu menywod a merched i ymarfer ymreolaeth gynyddu, bydd VAWDASV yn prinhau.

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Ein gweledigaeth: Cymru lle gall menywod a phlant fyw'n rhydd rhag pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a thrwy hynny gyflawni annibyniaeth, rhyddid a rhyddhad o ormes.

## Ein dyheadau:

- Bod pob math o VAWDASV yn cael ei ddeall yn well, ei herio a'i atal.
- Bod perthnasoedd rhwng menywod, dynion a phlant yn iach, yn ddiogel ac yn gyfartal; yn seiliedig ar barch at eu hawliau dynol ac urddas ei gilydd.
- Y gall holl oroeswyr VAWDASV gael cymorth cynnar sy'n adeiladu ar eu cryfderau, yn cwrdd â'u hanghenion a gwella eu lles.

## I gyflawni'r dyheadau hyn, rhaid i ni:

- Sicrhau ymateb cydlynol, 'system-gyfan', sy'n cydnabod bod ymdrin â VAWDASV yn llwyddiannus yn dibynnu ar sicrhau bod pob ymyrraeth atal – cynradd, eilaidd a thrydyddol – yn seiliedig ar dystiolaeth, yn cael ei rhedeg yn gynaliadwy, yn ymateb i ormes croestoriadol ac yn weithredol ar draws oes gyfan.
- Cytuno ar set o Ddangosyddion Cenedlaethol ar gyfer ymyraethau atal ar bob lefel a chasglu data'n rheolaidd ar lefel leol a chenedlaethol i fonitro cynnydd yn erbyn y dangosyddion hyn.
- Sicrhau buddsoddiad amlsector yn y system gyfan, nid un neu ddwy elfen yn unig. Byddai budd ariannol sylweddol (yn ogystal â moesegol) i'r sectorau iechyd, addysg a chyfiawnder, yn ogystal â llywodraethau cenedlaethol a lleol, yn sgil lleihau VAWDASV, a dylent fuddsoddi'n unol â hynny i'w atal.

## Atal cynradd

*Mae hyn yn ymwneud â diwygio strwythurau, arferion, agweddau a normau cymdeithasol unigolion, perthnasoedd, cymunedol, sefydliadol a chymdeithasol sy'n cynnal anghydraddoldeb o ran rhywedd; sy'n cydoddef, atgyfnerthu a/neu'n darlunio VAWDASV yn gadarnhaol; ac sy'n atgyfnerthu mathau eraill o ormes. Ei nod yw atal VAWDASV cyn iddo ddigwydd, ond mae hefyd yn cynyddu'r tebygolrwydd o ymyrraeth gynnar gyda goroeswyr.*

- **Cynenedigol / Babandod:** Dylai fod rhaglen wirfoddol ar gael i i rieni newydd i'w helpu i ymdrin â rolau rywedd ac ymarfer perthnasoedd cyfartal.
- **Plentyndod / Glasoed (3 i 16 oed):** Dylai'r Cwricwlwm Addysg Perthynas a Rhywioldeb, a gyflwynir drwy ddull addysg-gyfan, alluogi dysgwyr i adnabod VAWDASV a'u grymuso i herio'r hyn sy'n ei sbarduno.
- **Pobl Ifanc (16+):** Dylai colegau addysg bellach / chweched dosbarth a phrifysgolion, yn ogystal â lleoliadau cymunedol ieuenctid eraill (e.e. chwaraeon, hamdden, y celfyddydau) weithredu Ymyraethau Gwyliedydd gyda chysylltiadau clir at gymorth arbenigol. Dylai hyfforddiant myfyrwyr ar gyfer rolau sy'n ymdrin â'r cyhoedd, fel gwaith cymdeithasol ac iechyd, hyfforddiant i athrawon, y gyfraith a phlismona, gynnwys addysgu ar gydraddoldeb rhywedd, VAWDASV ac ymarfer gwrth-ormesol.
- **Oedolion:** Dylai canolfannau dysgu cymunedol/gydol oes gynnig gweithdai i wella dylanwad menywod a'u grym economaidd a chodi ymwybyddiaeth am VAWDASV.
- **Llysgenhadon Cymunedol:** Mae'r rhain yn hanfodol ar gyfer codi ymwybyddiaeth am VAWDASV ac anghydraddoldeb o ran rhywedd, a'u herio. Gallant gyrraedd amrywiaeth o gymunedau a herio traddodiadau, normau a gwerthoedd niweidiol o'r tu mewn.
- **Ymgyrchoedd a mentrau gweithredu cymunedol,** yn cynnwys Ymyraethau Gwyliedydd: Dylai'r rhain hybu ymdrechion eraill i atal VAWDASV. Maen nhw'n fwyaf effeithiol pan fydd y gymuned yn eu trefnu ac yn cymryd rhan, ond gellir eu cryfhau / dilysu gydag ymgyrchoedd llywodraethol cydamserol.
- **Cyfryngau Prif Ffrwd a Chymdeithasol:** Mae'r rhain yn dylanwadu'n fawr ar ddealltwriaeth pobl o 'normau' rhywedd a VAWDASV. Dylai rheoleiddwyr sefydlu safonau'n seiliedig ar hawliau dynol ar gyfer gohebu ar VAWDASV a dylid cyflwyno hyfforddiant i'r holl gwmnïau cyfryngau. Dylid cyfyngu ar bortreadau diraddiol o fenywod, a phortreadau o 'wrywdod' sydd yr un mor niweidiol. Dylai cyfryngau cymdeithasol orfodi polisïau cadarn ar gam-drin ar-lein, yn cynnwys aflonyddu rhywiol.
- **Gweithleoedd:** Dylent weithredu polisi dim goddef mewn perthynas â phob math o VAWDASV.

## Atal eilaidd

*Rhaid i bob goroeswr allu cael cefnogaeth arbenigol a phriodol ar y cyfle cyntaf, fel y dylai cyflawnwyr sy'n dymuno newid eu hymddygiad, a phlant sy'n dangos ymddygiad cam-drin. Mae hyn yn golygu bod angen i bobl mewn swyddi sy'n delio â'r cyhoedd allu adnabod arwyddion o VAWDASV a gwybod ble i gyfeirio cyflawnwyr a goroeswyr.*

- **IRIS** neu raglen debyg: Dylid ei chyflwyno ar draws meddygfeydd teulu a'r holl wasanaethau iechyd rheng flaen. Dylid datblygu model tebyg (neu addasu hwn) i gynnwys hyfforddiant ar bob math o drais yn erbyn menywod a merched yn ogystal â cham-drin domestig.
- **Y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol:** Caiff ei gyflwyno ar draws y sector cyhoeddus. Dylai gwmpasu pob math o VAWDASV a dylai fod cyrsiau gloywi ac ymestyn ar gael.
- **'Gweithiwr Proffesiynol Dibynadwy':** Dylid cyflwyno'r hyfforddiant hwn i'r rheini sydd mewn swyddi sy'n delio â'r cyhoedd nad ydynt yn derbyn hyfforddiant y fframwaith cenedlaethol.

## Atal trydyddol

Rhaid diogelu goroeswyr VAWDASV rhag ail-erledigaeth a niwed pellach, a rhaid cael gwasanaethau cymorth ansawdd uchel i'w cynorthwyo i wella. Rhaid dal cyflawnwyr VAWDASV yn atebol am eu hymddygiad a chael cyfleoedd i newid.

- **Y System Cyfiawnder:** Rhaid gwneud mwy i ddal cyflawnwyr yn atebol a gwella'r ymateb i ddioddefwyr. Dylai **Llywodraeth Cymru** roi cefnogaeth gyhoeddus i'r galwadau i ddiwygio'r llysoedd teuluol; gwneud llysoedd cam-drin domestig yn rhai prif ffrwd; a'r alwad ar i Wasanaeth Erlyn y Goron ymrwymo i wella ei benderfyniadau o ran erlyn mewn achosion o drais rhywiol. Dylai **Comisiynwyr Heddlu a Throsedd Cymru** sicrhau bod y pedwar heddlu'n cynnal hyfforddiant rheolaidd ar VAWDASV.
- **Mesurau diogelu** i ddioddefwyr neu'r rheini sydd mewn risg o ddioddef VAWDASV (e.e. Gorchmynion Meddiannaeth a Gorchmynion Diogelu). Dylid amlygu'r rhain yn y parth cyhoeddus.
- **Darparwyr gwasanaethau statudol:** Dylent sicrhau bod pob penderfyniad yn cael ei wneud er budd goroeswyr.

Dylai **gweithleoedd** weithredu polisi dim goddef mewn perthynas â phob math o VAWDASV a dylid sicrhau eu bod yn gweithredu polisi absenoldeb trugarog â thâl sy'n cynnwys dioddefwyr VAWDASV.

**Gwasanaethau Cymorth Generig ac Arbenigol:** Dylai awdurdodau lleol sicrhau y darperir gwasanaethau cymorth arbenigol ansawdd uchel i ddioddefwyr pob math o VAWDASV, yn ogystal â rhaglenni ymyrraeth gynnar i gyflawnwyr cam-drin domestig a glasoed sy'n dangos ymddygiad cam-drin. Dylent sicrhau bod yr holl weithwyr sy'n darparu gwasanaethau cymorth statudol generig yn cael eu hyfforddi i roi ymateb i oroeswyr sy'n cael ei lywio gan drawma, ei arwain gan anghenion ac sy'n seiliedig ar gryfderau.

Cefnogwyd gan Uned Atal Trais Violence Prevention Unit